O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1028 (Cy. 181)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A5 (Ger Llanrwst, yn Siroedd Conwy, Gwynedd a Dinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro ar Gerbydau) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A470 a'r A5, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A5 (Ger Llanrwst, yn Siroedd Conwy, Gwynedd a Dinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro ar Gerbydau) 2019 a daw i rym ar 18 Mehefin 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy a chefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 18 Mehefin 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth sy'n uwch na 5.0 metr neu'n lletach na 3.0 metr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 neu 40 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 5 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** (1) Ni fydd y cyfyngiadau a’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Mehefin 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Cyfyngu Dros Dro ar Gerbydau sy’n Uwch na 5.0 metr/ yn Lletach na 3.0 metr**

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth Bont Waterloo, ger Betws-y-coed i gyfeiriad y gogledd hyd at bwynt 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r A548 yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 30 a 40 milltir yr awr Dros Dro, Dim Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu Dros Dro ar Aros ar unrhyw adeg

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) yn Sir Conwy i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chylchfan yr A470/A496 ym Mlaenau Ffestiniog yn sir Gwynedd.

2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A494 yn y Ddwyryd yn Sir Ddinbych i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 50 metr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Bwthyn Ogwen ger Llyn Ogwen yn Sir Gwynedd.